**Adran 2**

# Deall y newid yn y defnydd o wasanaethau cyfathrebu

## Mae ein dull gweithredu'n seiliedig ar ddealltwriaeth fanwl o'r farchnad gyfathrebu

2.1 Mae Ofcom yn cynnal ymchwil rheolaidd i'r marchnadoedd y mae'n eu rheoleiddio.Mae'r ymchwil hwn yn sail i'n rhaglen waith yn y Cynllun Blynyddol ac i'r ffordd yr ydym yn cyflawni ein dyletswyddau.Mae hefyd yn rhoi gwybodaeth i ni, ac i eraill, am ddatblygiadau newydd mewn technoleg a'r effaith y gallai'r rhain ei chael ar y sectorau rydym yn eu rheoleiddio.

2.2 Mae ein hymchwil yn cael ei gyflwyno'n flynyddol yn yr adroddiadau ymchwil *Profiad y Defnyddiwr*[1] a *Profiad y Defnyddiwr Busnes*[2], yn ogystal ag *Adroddiad y Farchnad Gyfathrebu*[3]ac *Adroddiad y Farchnad Gyfathrebu Ryngwladol*[4]*,* ein harolygon ystadegol ar ddatblygiadau yn y sector cyfathrebiu yn y DU ac yn rhyngwladol.Rydym bellach hefyd wedi cyhoeddi ein hadroddiad cyntaf ar y *Seilwaith Cyfathrebu*[5].Mae'r adroddiadau hyn yn darparu data fesul gwlad, yn ogystal ag edrych ar y DU yn gyffredinol.

## Mae'r defnydd a wna defnyddwyr o wasanaethau cyfathrebu wedi cael ei weddnewid yn y degawd diwethaf

2.3 Mae *Adroddiad y Farchnad Gyfathrebu* yn cyflwyno ein hymchwil diweddaraf ar argaeledd a'r niferoedd sy'n defnyddio gwasanaethau cyfathrebu, pa mor fodlon yw'r defnyddwyr â'r gwasanaethau hyn a'u costau.Mae'n darparu data a dadansoddiadau ar ddarllediadau teledu a radio, y rhyngrwyd, a ffonau llinell sefydlog a symudol.

2.4 Yn adroddiad eleni, a gyhoeddwyd yn Awst 2011, manteisiwyd ar y cyfle i edrych yn ôl ar y newidiadau sydd wedi digwydd ar draws y DU yn y degawd diwethaf.Roedd yn dangos sut mae'r farchnad gyfathrebu wedi cael ei gweddnewid gan berchnogaeth gynyddol a defnydd cynyddol o fand eang, ffonau symudol a gwasanaethau teledu aml-sianel.Mae sawl gwasanaeth wedi gwneud y daith o fod yn wasanaeth arbenigol i fod yn wasanaeth prif-ffrwd ac er bod mwy o wasanaethau cyfathrebu ar gael a mwy yn eu defnyddio, y mae rhagor o le i dyfu o hyd o ran niferoedd:

[1] http://stakeholders.ofcom.org.uk/market-data-research/market-data/consumer-experience-reports/
[2] http://stakeholders.ofcom.org.uk/market-data-research/market-data/consumer-experience-reports/
[3] http://stakeholders.ofcom.org.uk/market-data-research/market-data/communications-market-reports/cmr11/
[4] http://stakeholders.ofcom.org.uk/market-data-research/market-data/communications-market-reports/
[5] http://stakeholders.ofcom.org.uk/binaries/research/telecoms-research/bbspeeds2011/infrastructure-report.pdf

- Er 2000, mae canran y cartrefi sydd â chysylltiad rhyngrwyd wedi treblu, gan gynyddu o 25% i 76%.


- Mae gwasanaethau band eang sefydlog a symudol wedi cael eu lansio a bellach maent i'w cael yn nhri chwarter cartrefi'r DU (74%).

- Mae’r cartrefi â theledu aml-sianel wedi cynyddu yn ôl canran debyg, o 36% i 93%, wedi’i ysgogi gan y newid i deledu digidol ledled y DU, a fydd yn cael ei gwblhau yn 2012.

- Yn 2000, dim ond hanner oedolion y DU a ddywedodd fod ganddynt ffôn symudol – mae’r ffigur bellach yn 91%.

2.5 Yn ystod yr un cyfnod, gostyngodd nifer y bobl sy’n berchen ar ffôn llinell sefydlog, o 93% i 85%, gan fod rhai defnyddwyr wedi dewis dibynnu'n gyfan gwbl ar ffôn symudol.Mae Ffigur 2 hefyd yn dangos bod cysylltu â'r rhyngrwyd dwy ddeialu, ynghyd â’r gwasanaethau teledu daearol analog pum sianel wedi diflannu bron yn gyfan gwbl.

**Ffigur 2:Y niferoedd sy’n defnyddio gwasanaethau cyfathrebu, 2000-2010**





*Ffynhonnell:Ymchwil arolygon Oftel/Ofcom*

## Mae gwasanaethau cyfathrebu ar gael yn eang ar draws llawer o'r DU

2.6 Ni fu fawr o newid yn ystod 2010 yn y rhan fwyaf o’r gwasanaethau cyfathrebu allweddol sydd ar gael, sy’n adlewyrchu lefelau darpariaeth bron yn gyffredinol ar draws y DU, a ddangosir yn Ffigur 3.Cafwyd y cynnydd mwyaf sylweddol o ran y gwasanaethau sydd ar gael yn y signal teledu daearol digidol (DTT), a gododd o 81% i 85% ar draws y DU wrth i'r newid i'r digidol fynd rhagddo'ngyflymach.Roedd argaeledd band eang gan sawl cyflenwr, ar draws y DU (gan ddefnyddio gwasanaethau dadfwndelu dolenni lleol (LLU)) yn 89% y llynedd, gan dyfu'n gyflymach na'r flwyddyn flaenorol.

**Ffigur 3:Argaeledd gwasanaethau cyfathrebu, 2010**





*Ffynhonnell:Adroddiad Ofcom ar y Farchnad Gyfathrebu*

2.7 Mae problemau mannau digyswllt yn effeithio llawer mwy ar y gwledydd nag ar Loegr.Er enghraifft, dangosodd adroddiad seilwaith Ofcom fod cyfanswm y mannau digyswllt allanol i'w cael ar 1.4% yn unig o arwyneb tir Lloegr ond roedd y ffigur yn 15.5% yn yr Alban a 5.8% yng Nghymru.Mae'r ddarpariaeth symudol yn amrywio hefyd yn rhanbarthau Lloegr a rhwng ardaloedd trefol a gwledig.Yn ystod 2012/13, byddwn yn darparu cyngor i'r llywodraeth ar ei chynigion i fuddsoddi £150m mewn seilwaith newydd i wella'r ddarpariaeth symudol yn ardaloedd y DU lle mae'r ddarpariaeth honno'n wael neu heb fod ar gael o gwbl.

**Ffigur 4:Darpariaeth symudol, fesul gwlad**

**Canran yr arwyneb tir nad yw'n derbyn darpariaeth gan unrhyw ddarparwr**




*Ffynhonnell:Adroddiad Seilwaith Ofcom*

2.8 Mae darparu band eang cyflym iawn sefydlog wedi parhau:

- Lansiodd VirginMedia ei wasanaeth 'hyd at' 100Mbit yr eiliad ddiwedd 2010, ac ym Mehefin 2011 cyhoeddodd fod y gwasanaeth ar gael i bedair miliwn o gartrefi'r DU[6].

- Ym Mai 2011, cyhoeddodd BT y byddai ei wasanaeth 'hyd at' 40Mbit yr eiliad ffibr-i'r-cabinet (FTTC) ar gael yn y man i bum miliwn o gartrefi ac yn pasio 80,000 o adeiladau ychwanegol bob wythnos[7].

- Parhaodd y gwaith o gyflwyno darpariaeth ffibr lleol, ac mae rhagor o gynlluniau ar y gweill i ddod â darpariaeth i ardaloedd mwy lleol, gan gynnwys Bournemouth, Belfast a Cumbria.

- Mae Llywodraeth yr Alban wedi neilltuo £62m dros y pedair blynedd nesaf ar gyfer y seilwaith band eang a'r economi ddigidol, gan gynnwys darparu band eang y genhedlaeth nesaf ledled yr Alban erbyn 2020.

2.9 Dyma faes gwaith pwysig y byddwn yn canolbwyntio arno yn 2012/13, gan hyrwyddo cystadleuaeth a buddsoddiad wrth ddarparu band eang cyflym iawn, a chydweithio â'r llywodraeth i sicrhau y bydd ar gael yn eang ar draws y DU.


## Mae'r niferoedd sy'n defnyddio gwasanaethau cyfathrebu ar draws gwledydd y DU yn amrywio

2.10 Rydym hefyd yn ystyried sut mae ein rhaglen waith yn effeithio ar wledydd y DU.Roedd y niferoedd sy'n defnyddio'r gwasanaethau cyfathrebu sydd wedi'u sefydlu fwyaf wedi aros yn sefydlog neu wedi cynyddu ychydig dros y flwyddyn ddiwethaf.Er bod y nifer â band eang wedi parhau i godi, mae'n dal yn gymharol isel yn yr Alban sef 61%, 13% y tu ôl i gyfartaledd y DU sef 74%.Mae'r nifer sy'n defnyddio ffonau llinell sefydlog yn is yng Nghymru ac yn yr Alban (80% yn y ddwy wlad).

[6] http://mediacentre.virginmedia.com/Stories/Virgin-Media-s-ultrafast-100Mb-broadband-now-available-to-over-four-million-UK-homes-211c.aspx

[7] http://www.btplc.com/News/ResultsPDF/q411release.pdf


### Ffigur 5:Y niferoedd sy'n defnyddio gwasanaethau cyfathrebu ar draws y gwledydd




*Ffynhonnell:Adroddiad Ofcom ar y Farchnad Gyfathrebu*

2.11 Mae Ffigur 6 yn dangos sut mae mabwysiadu gwasanaethau cyfathrebu hefyd yn amrywio yn ôl lleoliadau trefol a gwledig.At ei gilydd, mae lefelau uwch o ddefnydd mewn lleoliadau gwledig yn tueddu i gyfateb i lefelau uwch mewn ardaloedd trefol.Gwasanaethau llinell sefydlog yw'r unig beth sy'n wahanol i'r patrwm hwn, lle mae'r defnydd yn uwch mewn lleoliadau gwledig.

### Ffigur 6:Mabwysiadu gwasanaethau/technoleg cyfathrebu mewn lleoliadau trefol a gwledig



*Ffynhonnell:Adroddiad Ofcom ar y Farchnad Gyfathrebu*


## Mae lefelau newid yn amrywio yn ôl y gwasanaeth cyfathrebu

2.12 Teimlai'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr sydd wedi newid yn y 12 mis diwethaf fod y broses wedi bod yn hawdd 'iawn' neu'n 'weddol' hawdd, gyda'r anawsterau mwyaf yn cael eu nodi yn y farchnad ar gyfer bwndeli chwarae triphlyg (23%) ac i raddau llai yn y farchnad band eang annibynnol (15%).

2.13 Yn ystod 2012/13, byddwn yn bwrw iddi gyda'n hadolygiad strategol o newid gan ddefnyddwyr i wneud yn siŵr bod profiad y defnyddiwr o newid yn hawdd ac yn ddidrafferth, heddiw ac yn y dyfodol.

2.14 Nid ydym yn credu bod lefelau uchel o newid *per se* o anghenraid yn fanteisiol, gan y gallent adlewyrchu lefelau uchel o anfodlonrwydd.Ond, mewn marchnad gystadleuol, rhaid sicrhau bod y rhwystrau i newid yn ddigon isel fel nad yw cwsmeriaid yn cael eu dal mewn contract anfoddhaol.Rydym hefyd eisiau gwneud yn siŵr nad yw'r prosesau newid yn tarfu ar ddarparwyr sy'n cystadlu'n frwd â'i gilydd i ddarparu buddion i bob defnyddiwr.


**Ffigur 7:Barn defnyddwyr am ba mor hwylus oedd newid cyflenwr gwasanaethau cyfathrebu, ymysg y rheini a newidiodd yn ystod y 12 mis diwethaf.**




*Ffynhonnell:Adroddiad Profiad y Defnyddiwr, Rhagfyr 2011*

2.15 Fel gyda'r farchnad gyfathrebu, dywedodd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr sydd wedi newid eu cyflenwr cyfleustodau a/neu ddarparwr yswiriant car yn y 12 mis diwethaf i hynny fod yn hawdd 'iawn' neu'n 'weddol' hawdd ei wneud.O'i gymharu â gwasanaethau cyfathrebu, newid darparwr yswiriant car yw'r broses, i bob golwg, sy'n gweithio orau i ddefnyddwyr gyda 74% yn dweud iddi fod yn hawdd iawn gwneud y newid, er bod y lefel hon wedi gostwng o 82% y llynedd.


**Ffigur 8:Barn defnyddwyr am ba mor hwylus oedd newid cyflenwr cyfleustodau, ymysg y rheini a newidiodd yn ystod y 12 mis diwethaf**




*Ffynhonnell:Adroddiad Profiad y Defnyddiwr, Rhagfyr 2011*

2.16 Rydym hefyd yn adolygu'n rheolaidd y data cwynion y byddwn yn ei dderbyn gan ein Tîm Cyswllt Defnyddwyr er mwyn deall y prif broblemau y mae defnyddwyr yn eu hwynebu a'r gwaith y mae angen i ni ei wneud i leihau'r problemau hyn lle bynnag y bo modd.Yn Ebrill 2011, cyhoeddasom ein data gan y Tîm Cyswllt Defnyddwyr yn ôl darparwr a bwriadwn barhau i wneud hyn gyda diweddariadau chwarterol.Rydym o'r farn fod yr wybodaeth hon, ynghyd â'n hymchwil marchnad ar foddhad cwsmeriaid a data prisio sydd ar gael ar wefannau wedi'u hachredu gan Ofcom, yn rhoi i ddefnyddwyr y data cymharu y mae ei angen arnynt i wneud dewisiadau gwybodus am eu gwasanaethau cyfathrebu.

**Ffigur 9:Y duedd mewn cwynion am faterion telathrebu**




*Ffynhonnell:Adroddiad Profiad y Defnyddiwr, Rhagfyr 2011*


## Mae’r farchnad post hefyd wedi gweld newid sylweddol

2.17 Mae’r sector post yn hanfodol i economi a chymdeithas y DU ac mae'n arbennig o bwysig i ddefnyddwyr busnes sydd ar hyn o bryd yn anfon 87% o'r holl bost.Fwyfwy mae’n rhan o sector cyfathrebu llawer ehangach a dylanwadir arno gan y nifer cynyddol sy’n defnyddio gwasanaethau cyfathrebu eraill.

2.18 Yn y sectorau busnes a defnyddwyr gwelwyd newidiadau sylweddol yn y farchnad post yn ystod y pum mlynedd diwethaf, gyda gostyngiadau sylweddol yn nifer y llythyrau wrth i ddefnyddwyr symud tuag at ddulliau eraill di-dâl neu rhatach megis e-bost, a chynnydd yn y traffig parseli yn sgil siopa ar-lein.

2.19 Fel y dangosir yn Ffigur 10 isod, er 1998, gwelwyd datgysylltiad rhwng meintiau’r post a lefel gyffredinol twf economaidd, yn bennaf wrth i gyfryngau digidol gymryd drosodd.

### Ffigur 10:Perfformiad y Post Brenhinol a thwf economaidd





*Nodyn:Mae’r data’n cyfeirio at gyfraddau twf blynyddol cyfartaledd symudol tair blynedd*
*Ffynhonnell:Economics Forecasting, Group Regulation*

2.20 Mae gan y newidiadau hyn gysylltiad agos ag arloesedd parhaus yn y maes cyfathrebu electronig. Maent hefyd yn cael eu gyrru gan broffil demograffig sy'n newid a datblygiadau yn ymddygiad defnyddwyr (er enghraifft, y defnydd o gyfryngau cymdeithasol a siopa ar y rhyngrwyd). Felly dylai post gael ei ystyried yn rhan greiddiol o’r farchnad gyfathrebu ehangach, ac adlewyrchir hyn yn ein blaenoriaethau.

2.21 Cyn 2006, nid oedd cynnydd ym mhris stampiau yn cadw i fyny â chwyddiant.Ond, ers hynny, mae prisiau stampiau wedi codi'n sylweddol oherwydd yr angen i'r Post Brenhinol roi sylw i'r gostyngiadau yn ei elw a'i refeniw, a'r dirywiad yn ei lif arian oherwydd gostyngiadau parhaus yn y farchnad o ran nifer eitemau ac arbedion effeithlonrwydd arafach na'r disgwyl.Dangosir y tueddiad hwn ym mhrisiau stampiau'r Post Brenhinol yn Ffigur 11 isod.

**Ffigur 11:Prisiau stampiau dosbarth cyntaf ac ail ddosbarth:1983-2011**




*Ffynhonnell:Dadansoddiad Ofcom*

2.22 Yn 2012/13 byddwn yn canolbwyntio ar sawl agwedd ar y farchnad post gan gynnwys sicrhau y bydd gwasanaeth post cyffredinol yn dal i gael ei ddarparu, a chynnal adolygiad o anghenion defnyddwyr y post.

ymhelaethu ar yr ymrwymiadau hyn yn ogystal â darparu tystiolaeth o'r adnoddau a'r arbenigedd gallant eu defnyddio i'w cyflawni.

7.19 Mae rhai rhannau o'r ffurflen gais yn cynnwys uchafswm nifer geiriau er mwyn helpu'r ymgeiswyr i roi atebion cryno, ac er mwyn sicrhau bod yr holl ymgeiswyr yn gweithio o fewn yr un terfynau.

7.20 Roedd rhai ymgeiswyr mewn rowndiau trwyddedu yn y gorffennol wedi darparu gwybodaeth ychwanegol ddiangen (megis deisebau, toriadau o'r wasg a gohebiaeth gan gefnogwyr).Gall yr holl ymgeiswyr nawr weld rhestr glir o'r hyn rydym yn ei dderbyn, er mwyn iddynt beidio â darparu mwy o wybodaeth ychwanegol na'r hyn sydd ei angen.

**Byddwn yn sefydlu cynlluniau ymarfer gorau i gefnogi Gemau Olympaidd 2012 Llundain**

7.21 Fel rhan o ymrwymiad y Llywodraeth i Gemau Olympaidd 2012 Llundain, mae Ofcom yn llunio paratoadau manwl i sicrhau Gemau diogel a llwyddiannus.Rydym yn gweithio i gyflawni hyn mewn ffordd sy'n darparu gwerth sylweddol am arian, wrth gymharu â rheoleiddwyr mewn dinasoedd Olympaidd yn y gorffennol.

7.22 Swyddogaeth Ofcom yw creu cynllun sbectrwm arbennig ar gyfer y Gemau; er mwyn cyflawni hyn byddwn yn ymgymryd â'r tasgau canlynol, sydd yn ychwanegol at ein busnes arferol:

- darparu trwyddedau sbectrwm ar gyfer defnyddwyr Gemau penodol;
- profi a chomisiynu'r offer di-wifr a ddefnyddir yn y Gemau; a
- sicrhau bod unrhyw achosion o ymyrraeth niweidiol yn cael eu datrys yn gyflym ac yn effeithiol.

7.23 Byddwn yn gosod rhwydwaith o synwyryddion ar draws lleoliadau'r Gemau er mwyn monitro'r sbectrwm a chanfod union leoliad unrhyw ymyrraeth.Yn y gorffennol mae'r Gemau wedi cyflogi hyd at 300 o bobl i wneud y gwaith hwn eu hunain - drwy ddefnyddio technoleg uwch byddwn yn gallu defnyddio hanner y nifer honno.

7.24 Effaith net hyn fydd symleiddio ein prosesau ac arbed llawer o gostau i randdeiliaid.

**Rydym wedi adolygu'r gweithdrefnau ar gyfer delio â chwynion, ymchwiliadau a sancsiynau darlledu**

7.25 Rydym wedi adolygu ein gweithdrefnau ar gyfer ymchwiliadau a sancsiynau gan ein bod yn credu bod modd eu gwella drachefn er budd ein holl randdeiliaid.Roeddem wedi cynnig nifer o newidiadau a fyddai yn:

- symleiddio ein prosesau a'n gweithdrefnau;
- cynnal ymchwiliadau yn gynt;
- caniatáu mwy o benderfyniadau ymatebol;
- symleiddio rhyngweithio rhanddeiliaid â ni o ddydd i ddydd; a

- darparu gwerth gwell i'n rhanddeiliaid.

7.26 Roeddem wedi ymgynghori'n gyhoeddus ynghylch y newidiadau hyn i gasglu safbwyntiau rhanddeiliaid.Daeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Chwefror 2011 a chafodd y gweithdrefnau newydd eu cyhoeddi ym mis Mehefin 2011. Mae'r prif newidiadau i'r gweithdrefnau newydd yn cynnwys:

- **Symud at fodel 'ar sail materion' er mwyn sicrhau cydymffurfiad â gofynion perthnasol**:Bydd Ofcom yn parhau i gydnabod pob cwyn ond ni fydd mwyach yn ateb pob cwyn unigol gydag ymateb 'wedi'i deilwra'.Yn lle hynny, byddwn yn ymchwilio pan fydd angen ac yn blaenoriaethu ein hymchwiliadau yn ôl nifer o ffactorau.

- **Cyflwyno 'safbwynt rhagarweiniol':**Bydd hyn yn cael ei wneud yn gynnar yn y broses a bydd yn galluogi darlledwyr (a'r rheini sy'n cwyno mewn achosion tegwch a phreifatrwydd) i baratoi eu sylwadau, a hwythau eisoes wedi cael gwybod beth yw'r safbwynt rhagarweiniol.

- **Diddymu'r mecanwaith adolygu mewnol**:Ni fydd rhanddeiliaid bellach yn cael y cyfle i ofyn am adolygiad mewnol o'n holl benderfyniadau ynghylch torri gofynion trwydded darlledu.O ganlyniad, rydym wedi diddymu'r Pwyllgor Adolygu Darlledu.

- **Diddymu'r Pwyllgor Sancsiynau Darlledu**:Bydd ystyried a phenderfynu ar sancsiynau statudol nawr fel rheol yn cael ei wneud gan ddau aelod o Bwyllgor Gwaith Ofcom sydd â digon o arbenigedd a chyfrifoldeb ac un aelod anweithredol o Fwrdd Cynnwys Ofcom.

- **Egluro dull Ofcom o ddatgelu'r wybodaeth y mae'n ei chasglu yn ystod ymchwiliadau**.

7.27 Mae'r newidiadau uchod wedi cael eu cynllunio i sicrhau tegwch parhaus i'r rheini sy'n ymwneud â'n gweithdrefnau ymchwiliadau a chwynion, ac i sicrhau ar yr un pryd bod penderfyniadau o safon yn cael eu gwneud.

### Byddwn yn parhau i weithredu ein cynllun e-wasanaethau newydd

7.28 Byddwn yn parhau i ddatblygu ein cynllun e-wasanaethau er mwyn rhoi porth newydd i ddefnyddwyr gael cyngor, cyfarwyddyd a gallu cofnodi cwynion am wasanaethau cyfathrebu.Caiff hyn ei anelu at annog defnyddwyr at strategaeth 'Gwe yn Gyntaf' drwy borth gwe Ofcom.

7.29 Bydd y porth yn caniatáu i ddefnyddwyr fewngofnodi i'r wefan 24/7, yn darparu profiad gwell i gwsmeriaid, ac yn berthnasol i gyngor, ymholiadau a chwynion telegyfathrebu.Bydd hefyd yn galluogi Ofcom i gasglu data gwerthfawr ar faterion allweddol, patrymau sy'n dod i'r fei a pherfformiad darparwyr gwasanaeth, er mwyn cyfrannu at ddatblygu a gorfodi polisïau.

7.30 Rydym yn gobeithio y bydd y porth defnyddwyr newydd yn lleihau nifer y galwadau a gawn i'n Canolfan Cyswllt Defnyddwyr hyd at 50%, gan ganiatáu i'n staff ddelio â galwadau mwy cymhleth nad oes modd eu datrys dros y we, a darparu cymorth i ddefnyddwyr agored i niwed a'r rheini nad ydynt ar-lein eto.Mae prototeip wedi cael ei ddatblygu ac ar hyn o bryd mae'n mynd i'r cam adeiladu system.

### Prosiect adolygu gwariant

7.31 Cafodd y Tîm Cynllunio a Pherfformiad ei sefydlu yn gynnar yn 2011, a dyma'r tîm sy'n bennaf gyfrifol am fframwaith rheoli perfformiad Ofcom.Prif ffocws y fframwaith hwn fu symleiddio ein prosesau adrodd mewnol, a fydd yn golygu bod modd darparu gwybodaeth sy'n fwy amserol i reolwyr, yn enwedig am y Prosiect Adolygu Gwariant.Nod tymor hir y fframwaith yw sicrhau y bydd monitro ac adrodd am gynnydd yn fwy effeithiol yn arwain at fanteision i ddefnyddwyr yn sgil defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon, a bydd y gwaith hwn yn parhau i 2012/13.

### Adolygu'r broses ar gyfer monitro gwasanaethau mynediad darlledu

7.32 Yn y gorffennol, roedd Ofcom wedi gofyn i bob grŵp sianel teledu, yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn, ddarparu samplau o'u cynnwys darlledu a oedd â gwasanaethau mynediad (is-deitlau, disgrifiad sain ac iaith arwyddion).Yn dilyn adolygiad mewnol i leihau baich ceisiadau am wybodaeth ar ddarlledwyr, rydym wedi newid ein prosesau er mwyn adolygu a chofnodi'r cynnwys hwnnw'n uniongyrchol ein hunain, gan leihau'r baich ar y grwpiau sianel.

## Cynlluniau symleiddio a dadreoleiddio newydd 2012/13

7.33 Mae'r adran hon yn rhoi enghreifftiau o gynlluniau symleiddio eraill rydym eisoes yn bwriadu eu cynnal yn 2012/13. Gan ein bod yn gwneud llawer iawn o waith yn y maes hwn ers llynedd, rydym yn disgwyl ar ôl cwblhau cynlluniau blaenorol y bydd rhagor o gynlluniau'n cael eu datblygu dros y flwyddyn nesaf.

### Rydym yn cynnig symleiddio rhai agweddau ar reoleiddio gwasanaethau post

7.34 Wrth ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros reoleiddio gwasanaethau post ar 1 Hydref 2011, roedd gofyn i Ofcom drawsosod yr amodau trwyddedu presennol i drefn awdurdodi gyffredinol.Fel rhan o'r broses hon roeddem wedi tynnu 13 o amodau o'r trwyddedau Post Brenhinol a Safonol.Roedd y rhain bellach yn ddianghenraid, naill ai oherwydd bod yr amod yn dyblygu pwerau statudol Ofcom (ee nid oedd angen amod 11 ar hybu cystadleuaeth effeithiol oherwydd bod gan Ofcom bwerau cyfredol dan Ddeddf Cystadleuaeth 1998) neu oherwydd eu bod yn amhriodol mewn trefn awdurdodi gyffredinol (ee amod 12 ar uno, trosfeddiannu a newid rheolaeth).

7.35 Mae manylion y newidiadau hyn ar gael yn y ddogfen *PostalRegulation:Transition to the newregulatoryframework*[10].

7.36 Mae enghreifftiau penodol o symleiddio rheoleiddio post, fel sydd wedi'i gynnwys yn yr ymgynghoriad a gyhoeddwyd ar 20 Hydref 2011, yn cynnwys:

- **Dadreoleiddio penderfyniadau ynghylch newid prisiau**:Mae Ofcom wedi cynnig rhoi rhyddid i'r Post Brenhinol osod ei brisiau ei hun ar gyfer y rhan fwyaf o'i gynnyrch.
- **Diddymu gosod prisiau mynediad gan y rheoleiddiwr**:drwy gynnig bod y Post Brenhinol yn cael y rhyddid i osod y 'pris cyfanwerthu' ar gyfer mynediad i'w

[10] http://stakeholders.ofcom.org.uk/consultations/postal-regulation/

rwydwaith, yn amodol ar reolau sy'n ymwneud â'r gwahaniaeth a ganiateir rhwng y prisiau cyfanwerthu a'r prisiau manwerthu.

- **Cynnig gosod y fframwaith rheoleiddio ar gyfer y saith mlynedd nesaf**:a thrwy hynny lleihau'r newid rheoleiddio a darparu rhywfaint o sicrwydd i'r diwydiant.

7.37 Byddwn yn cyhoeddi ymgynghoriad a fydd yn edrych ymhellach ar leihau rheoleiddio pan nad yw'n briodol mwyach (ee ar gyfer cynnyrch a gwasanaethau heb fod yn Ddyletswydd Gwasanaeth Cyffredinol) yn ogystal â symleiddio rhagor ar ddyletswyddau rheoleiddio ar gyfer cynnyrch heb fod yn Ddyletswydd Gwasanaeth Cyffredinol, a rhoi rhagor o ryddid masnachol i'r Post Brenhinol yn dilyn ymgynghoriad 20 Hydref.

### Symleiddio proses prynu a gwerthu sbectrwm

7.38 Rydym yn ei gwneud hi'n symlach i fusnesau brynu a gwerthu sbectrwm a'i ryddhau ar gyfer gwasanaethau newydd.Bydd hi'n bosibl cael gafael ar sbectrwm drwy'r farchnad drwy ei lesio'n uniongyrchol gan ddefnyddiwr cyfredol heb orfod rhoi gwybod i Ofcom a heb orfod rhoi trwydded newydd.Bydd hyn yn golygu bod modd gweithredu'n gynt a bydd yn golygu costau trafodion is.

7.39 Bydd y partïon yn trafod telerau'r les, ond ceir diogelwch rheoleiddio er mwyn ein galluogi ni, os bydd angen, i gynnal ymchwiliad a delio ag unrhyw achosion o dorri amodau trwydded neu ymyrraeth niweidiol nad oes modd i'r partïon eu datrys.

7.40 Mae Cam un, sy'n berthnasol i gategorïau trwydded penodol, wedi dechrau yn dilyn ymateb cadarnhaol i ymgynghoriad cynharach.Byddwn yn ystyried ei ymestyn yn raddol yng ngoleuni profiad ac er mwyn ymateb i'r galw yn y farchnad.

